GwerthwchiGymru

Canllaw i Brynwyr – Hysbysiad Cam 2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Tabl Cynnwys

Beth yw Hysbysiad Cam 2? 2

Sut i greu Hysbysiad Cam 2 3

Sut i ddosbarthu Hysbysiad Cam 2 5

Gweinyddu Hysbysiad Cam 2 a ddosbarthwyd 10

Beth yw hysbysiad Cam 2?

Mae hysbysiad Cam 2 yn galluogi prynwyr i anfon gwahoddiad byr i dendro at restr ddethol o gyflenwyr sydd wedi cymhwyso ymlaen llaw o gam cyntaf gweithdrefn dau gam, fel gweithdrefn gyfyngedig OJEU. Gall y broses dendro gael ei rheoli ar-lein gydag opsiynau i atodi ac anfon dogfennau, actifadu'r cyfleuster cwestiynau ac atebion ar-lein a derbyn tendrau wedi'u cwblhau ar-lein gan ddefnyddio'r blwch postio.

Byddai prynwyr yn defnyddio'r hysbysiad ar ôl cam cymhwyso ymlaen llaw. Fe'i defnyddir i wahodd cyflenwyr ar y rhestr fer i gymryd rhan yn y cam tendro ac mae hefyd yn caniatáu i dendrau terfynol gael eu cyflwyno drwy'r blwch postio. Mae hyn yn sicrhau bod y broses dendro yn cael ei gweithredu'n gyfan gwbl ar-lein er mwyn helpu i symleiddio a lleihau'r llwyth gwaith i brynwyr a chyflenwyr, tra'n cynnal tegwch ac uniondeb ar gyfer pob parti.

Ni chaiff yr hysbysiad Cam 2 ei gyhoeddi. Dim ond ym Mhanel Rheoli Cam 2 y Prynwr ac yn rhestr diddordeb y cyflenwyr hynny sydd wedi'u dewis i dendro y gellir ei weld. Cynrychiolir hysbysiad Cam 2 gan y symbol coch a gwyn: ⛔

Tudalen Panel Rheoli Cam 2

Panel Rheoli Cam 2

Mae swyddogaeth Cam 2 y Weithdrefn Gyfyngedig yn galluogi awdurdodau contractio i anfon gwahoddiad byr i dendro yn electronig i restr ddethol o gyflenwyr sydd wedi cymhwyso ymlaen llaw o dan y weithdrefn gyfyngedig ar gyfer hysbysiadau OJEU a hysb

Am ragor o wybodaeth am swyddogaeth Cam 2 y Weithdrefn Gyfyngedig, darllenwch y **canllaw ar Gam 2 o'r Hysbysiadau** ar Tudalen gymorth Canllawiau i Ddefnyddwyr .

Fy Hysbysiadau Cam 2

- **Fy Hysbysiadau** Cam 2 Anghyhoeddedig
- **Fy Hysbysiadau** Cam 2 Cyhoeddedig

Hysbysiadau Cam 2 yr Awdurdod

- **Hysbysiadau Cam 2** Anghyhoeddedig yr Awdurdod
- **Hysbysiadau Cam 2** a Gyhoeddwyd gan yr Awdurdod

Sut i greu Hysbysiad Cam 2

Dim ond ar ôl y dyddiad cau a bennwyd ar gyfer hysbysiad Cam 1 y gellir creu hysbysiad Cam 2.
Er mwyn creu hysbysiad Cam 2, rhaid i chi fynd i'ch Gweithfan Hysbysiadau Cyhoeddedig a chlicio ar yr hysbysiad contract a ddefnyddiwyd i hysbysebu cam cyntaf y broses.

Bydd blwch newydd â'r pennawd "Gweithdrefn Gyfyngedig Cam 2" yn ymddangos ar y dudalen sy'n nodi Statws yr Hysbysiad, gydag opsiwn "Parhau".

Statws Hysbysiad Cam 1 Cyhoeddedig



Drwy glicio ar "Parhau", cewch eich tywys i'r man cychwynnol ar gyfer creu Hysbysiad Cam 2 lle y gallwch weithio drwy bob cwestiwn gan ddefnyddio'r botwm "Nesaf" neu'r gwymplen "Neidio I".

Drwy glicio ar "Parhau", caiff yr hysbysiad ei gadw ar eich gweithfan Hysbysiadau Cam 2 Anghyhoeddedig lle y gallwch olygu a storio'r Hysbysiad Cam 2 yn yr un modd â hysbysiadau safonol. Caiff yr ateb i bob cwestiwn ei storio drwy glicio ar y botymau "Nesaf" neu "Cadw" a gallwch roi'r gorau i'r broses unrhyw bryd a dychwelyd yn ddiweddarach i gwblhau'r holl gwestiynau.

Noder: Dim ond un Hysbysiad Cam 2 y gellir ei greu ar gyfer pob Hysbysiad Contract. Unwaith y byddwch wedi creu Hysbysiad Cam 2 o'r Hysbysiad Contract bydd yr opsiwn "Parhau" yn diflannu. Dim ond drwy ddileu Hysbysiad Cam 2 anghyhoeddedig neu ganslo un a ddosbarthwyd y gellir creu Hysbysiad Cam 2 newydd.

Dechrau Creu Hysbysiad Cam 2 - Tudalen Golygu Hysbysiad Gweithdrefn Gyfyngedig Cam 2



Mae'r hysbysiad Cam 2 yn cynnwys y Cwestiynau canlynol:

Manylion yr awdurdod prynu
Caiff y manylion hyn eu copïo o'r hysbysiad gwreiddiol.

Teitl y Contract
Caiff y teitl hwn ei gopïo o'r hysbysiad gwreiddiol.

Disgrifiad o Ofynion y Contract
Caiff y disgrifiad hwn ei gopïo o'r hysbysiad gwreiddiol.

Cyfanswm Maint neu Gwmpas
Nodwch fanylion maint neu gwmpas y contract.

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Tendrau
Y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd tendrau sydd wedi'u cwblhau. Os defnyddir y blwch postio electronig, dyma'r dyddiad y bydd y blwch postio yn cau.

Gwybodaeth Ychwanegol
Blwch testun gwag ar gyfer unrhyw wybodaeth atodol.

Opsiynau Ychwanegol

Yma rhaid i chi ddewis a ydych am ddefnyddio'r blwch postio electronig i dderbyn tendrau. Gallwch hefyd ddefnyddio'r cyfleuster Cwestiynau ac Atebion a Dogfennau Ychwanegol.

Mynediad y Gweinyddwr

Dewiswch aelodau o'r awdurdod y bydd angen iddynt allu golygu ac ychwanegu gwybodaeth bellach i'r hysbysiad unwaith y caiff ei ddosbarthu.

Dogfennau Ychwanegol (os dewisir yr opsiwn)
Uwchlwythwch yr holl ddogfennau sydd i'w dosbarthu i'r cyflenwyr. Nid oes cyfyngiad ar faint ffeiliau unigol, ond ni ddylai'r holl ddogfennau fod yn fwy na 100Mb

Cwestiynau ac Atebion (os dewisir yr opsiwn)
Dewiswch y prif gyswllt gweinyddol a fydd yn gyfrifol am dderbyn cwestiynau ac ymateb iddynt.

Agorwr y Blwch Postio (os dewisir yr opsiwn)
Dewiswch y defnyddiwr/defnyddwyr a fydd yn agor y blwch postio ac yn lawrlwytho'r ymatebion i'r tendr. Rhaid bod gan ddefnyddwyr statws "Agorwr" er mwyn cael eu dewis yma. Am ragor o wybodaeth, gweler y Canllaw i Ddefnyddwyr y Blwch Postio.

Unwaith y byddwch wedi ateb pob un o'r cwestiynau perthnasol, bydd y broses o greu Hysbysiad Cam 2 wedi'i chwblhau a bydd gennych yr opsiwn o weld yr Hysbysiad cyn iddo gael ei ddosbarthu, ei ddosbarthu neu ddychwelyd at eich gweithfan hysbysiadau.

Sut i ddosbarthu Hysbysiad Cam 2

Pan fyddwch yn barod i ddosbarthu hysbysiad Cam 2, bydd rhaid i chi glicio ar y ddolen "Dosbarthu'r Hysbysiad" er mwyn dechrau'r broses ddosbarthu:

Tudalen Cwblhawyd y Gwaith o Greu Cam 2 o'r Weithdrefn Gyfyngedig



Fel arall, os ydych yn dychwelyd i'r Hysbysiad Cam 2 o'ch rhestr o Hysbysiadau Cam 2 Anghyhoeddedig yn eich Panel Rheoli Cam 2, cliciwch ar deitl yr Hysbysiad Cam 2 ac yna'r botwm "Cyhoeddi".

Fy Hysbysiadau Cam 2 Anghyhoeddedig



Tudalen Statws Hysbysiad Cam 2

Yna cewch eich cyfeirio at y Dudalen Dosbarthu Cam 2 lle y byddwch yn dewis y cyflenwyr yr hoffech eu gwahodd i dendro.

Os ydych wedi defnyddio'r blwch postio ar gyfer yr hysbysiad cam un, yna bydd rhestr o'r holl gyflenwyr a gyflwynodd ymateb ar gael i chi yn y tab "Ymatebion yn y Blwch Postio", yn y blwch "Rhestr Ddosbarthu".

Rhestr Ddosbarthu ar y dudalen Manylion Cam 2 - Tab Ymatebion yn y Blwch Postio



Er mwyn ychwanegu cyflenwyr yr hoffech eu gwahodd i dendro at y rhestr ddosbarthu, rhaid i chi dicio'r blwch i'r chwith o enw'r cyflenwr a chlicio ar "Ychwanegu". Gallwch ychwanegu sawl cyflenwr ar yr un pryd.

Rhestrir pob cyflenwr a ychwanegir gennych yn y tab rhestr ddosbarthu. Os hoffech ddileu rhywun o'r rhestr ddosbarthu, gallwch glicio ar "dileu" wrth ymyl ei enw.

Rhestr Ddosbarthu ar y dudalen Manylion Cam 2 - Tab Rhestr Ddosbarthu



Os oes cyflenwyr yr hoffech eu hychwanegu ond na wnaethant roi tendr yn y blwch postio ar gyfer hysbysiad cam un, gallwch chwilio amdanynt drwy ddefnyddio'r tab "Chwilio am Gyflenwyr". Teipiwch enw'r cwmni i mewn i'r maes "Chwilio am" a chliciwch ar "Chwilio".

Rhestr Ddosbarthu ar y dudalen Manylion Cam 2 - Tab Chwilio am Gyflenwyr



Unwaith rydych yn fodlon ar y rhestr ddosbarthu, cliciwch ar "Dosbarthu" yn y blwch "Manylion Cam 2".

Gallwch ychwanegu cyflenwyr at y rhestr ddosbarthu ar ôl i'r hysbysiad gael ei ddosbarthu.

Dosbarthu Hysbysiad Gweithdrefn Gyfyngedig Cam 2

Drwy glicio ar "Dosbarthu", anfonir neges e-bost at yr holl gyflenwyr ar y rhestr yn eu hysbysu am y Gwahoddiad i Dendro ac yn gofyn iddynt fewngofnodi i'r wefan er mwyn derbyn neu wrthod y gwahoddiad. Caiff yr hysbysiad Cam 2 ei ychwanegu'n awtomatig at Restr Diddordeb y cyflenwyr a ddewiswyd.

Noder: Eich cyfeiriad e-bost chi gaiff ei nodi yn y maes "gan" yn yr e-bost felly caiff unrhyw ymatebion uniongyrchol i'r e-bost eu hanfon i'ch cyfeiriad e-bost cofrestredig. Gall hyn gynnwys ymatebion "Allan o'r Swyddfa" neu negeseuon "E-bost annanfonadwy" a fydd yn eich hysbysu nad yw'r cyflenwr o bosibl wedi derbyn yr e-bost. Os byddwch yn derbyn hysbysiad o'r fath, cysylltwch â'r cyflenwr ac, os bydd angen, y Ddesg Gymorth.

Gweinyddu Hysbysiad Cam 2 a ddosbarthwyd

Unwaith y caiff hysbysiad Cam 2 ei ddosbarthu, caiff ei ychwanegu at eich Gweithfan Hysbysiadau Cam 2 Cyhoeddedig lle y gall y Gweinyddwyr a ddewiswyd yn ystod y broses o greu'r hysbysiad gael gafael arno a'i weinyddu.

Fy Hysbysiadau Cam 2 Cyhoeddedig



Yn yr un modd â hysbysiad safonol, gallwch:

- Newid y dyddiad cau
- Canslo'r hysbysiad
- Ychwanegu gwybodaeth ychwanegol
- Ychwanegol dogfennau ychwanegol
- Ymateb i Gwestiynau ac Atebion
- Cael mynediad i'r blwch postio electronig

Caiff y sawl ar y rhestr ddosbarthu eu hysbysu am bob newid a wneir i'r hysbysiad drwy e-bost.

Gallwch hefyd ychwanegu cyflenwyr at y rhestr ddosbarthu ar ôl i chi anfon yr hysbysiad.

Gweithfan Hysbysiadau Cam 2 Cyhoeddedig - Statws Hysbysiadau Cam 2



Gweld y Rhestr Ddosbarthu ar gyfer Hysbysiadau Cam 2

Drwy glicio ar "Gweld y Rhestr Ddosbarthu" gallwch weld rhestr o'r cyflenwyr rydych wedi'u gwahodd i dendro.

Gallwch weld hefyd a ydynt wedi derbyn neu wrthod y gwahoddiad i dendro. Yn yr enghraifft isod, mae un cyflenwr wedi cadarnhau y bydd yn cyflwyno cynnig, mae un wedi gwrthod ac nid yw pedwar ohonynt wedi ymateb. **Efallai y byddwch am gysylltu â'r cyflenwyr sydd heb ymateb er mwyn sicrhau eu bod wedi derbyn yr e-bost.**

Hysbysiad Cam 2 Cyhoeddedig - tudalen Cyflenwyr ar y Rhestr Ddosbarthu

Cofnodi Ymateb Ysgrifenedig

Os na chaiff ymatebion eu derbyn i'r blwch postio, efallai y byddwch am gofnodi tendr ysgrifenedig drwy glicio ar enw'r cyflenwr perthnasol ac ychwanegu'r dyddiad a'r amser y derbyniwyd ei ymateb, ynghyd ag unrhyw sylwadau ychwanegol.

I gael canllawiau ar sut i ddefnyddio'r blwch postio, gweler y canllaw perthnasol i ddefnyddwyr.